monmouthshire
sir fynwy

Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 16 Mehefin 2021

## Hysbysiad o gyfarfod:

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 24ain Mehefin, 2021 at 2.00 pm, County Hall, Usk - Remote Attendance

# AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Cwestiynau Cyhoeddus** | |
| 4. | **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| 5. | **Adroddiadau ar gyfer y Cyngor:** | |
| 5.1. | **ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PRIF SWYDDOG AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC** | 3 - 30 |
| 5.2. | **NEUADD SIROL / AMGUEDDFA TREFYNWY** | 31 - 52 |
| 5.3. | **DIWEDDARIAD O'R STRATEGAETH ARGYFWNG HINSAWDD** | 53 - 74 |
| 5.4. | **STRATEGAETH A FFEFRIR CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR FYNWY** | 75 - 328 |
| 6. | **Rhestr o Gynigion** | |
| 6.1. | **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Richard John, Arweinydd y Cyngor** | |

Mae'r Cyngor:
Yn cydnabod bod Cyngor mwy cynrychioliadol yn well er mwyn adlewyrchu barn a phrofiadau trigolion ein sir.
Yn edifar mai ond 285% o Gynghorwyr yng Nghymru sydd yn fenywod ac nid oes yr un awdurdod lleol wedi sicrhau cydbwysedd rhyw o 50:50.
Yn croesawu'r gwelliant mewn cynrychiolaeth fenywaidd ymhlith Cynghorwyr Sir Fynwy i 35% yn 2017.
Yn datgan y bydd y pedair plaid wleidyddol yn cymryd camau er mwyn sicrhau mai Cyngor Sir Fynwy yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i sicrhau cydraddoldeb o ran y nifer o ddynion a menywod sydd yn cael eu hethol yn 2022.

**6.2.** **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Paul Jordan**

Mae Cyngor Sir Fynwy yn galw ar Gymdeithas Pêl-droed Cymru i gyhoeddi adolygiad o'r penderfyniad a wnaed sydd yn golygu bod Clwb Pêl-droed Menywod Y Fenni yn disgyn i haen 2. Mae Clwb Pêl-droed Menywod Y Fenni wedi bod yn y gynghrair uchaf ers 9 mlynedd a nhw yw'r pedwerydd clwb mwyaf llwyddiannus yn hanes y gystadleuaeth.
Mae Cymdeithas Pêl-droed Cymru wedi gosod Aberystwyth yn haen un, er nad iddynt ennill yr un gêm y tymor diwethaf.
Nid oes cynrychiolaeth gan Went nawr, er ein bod ymhlith yr ardaloedd mwyaf poblog yng Nghymru.
Mae'r hyn a wnaed gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru yn gwbl annheg.
Mae Clwb Pêl-droed Menywod Y Fenni yn cynnal gwerthoedd go iawn chwaraeon ac rydym yn galw ar Gymdeithas Pêl-droed Cymru i wneud yr un peth.

**6.3.** **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Tony Easson**

Mae'r cynnig hwn yn gofyn am gefnogaeth y Cyngor i berswadio Cyfoeth Naturiol Cymru i wyrdroi'r bwriad i ddisodli'r dulliau traddodiadol o bysgota, gan ddefnyddio rhwyd gafl, i bolisi o ''ddal a rhyddhau'r pysgod" ar draws aber yr afon Hafren

Hoffem fod hyn yn cael ei gymeradwyo a bod y sylwadau sydd wedi eu hatodi yn cael eu danfon i Gyfoeth Naturiol Cymru, Aelod Cabinet y Senedd ar gyfer Materion Gwledig a bod copi yn cael ei ddanfon hefyd at holl Aelodau Senedd Cymru sydd yn cynrychioli Dwyrain Casnewydd, Trefynwy a De Ddwyrain Cymru, gan gynnwys yr unig AS sydd yn cynrychioli'r Democratiaid Rhyddfrydol.

**6.4.** **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Kevin Williams**

Mae'r Cyngor yn canmol y cyfraniad a wneir i'n bywyd cymundeol gan y bobl ifanc sydd yn gadael gofal y Cyngor, a hynny yn ystod eu hamser mewn gofal. Mae'n cydnabod yr effaith bositif yr ydym ni, fel Cyngor, yn medru gwneud i wella eu bywydau wrth iddynt adael y system ofal, a byddwn yn parhau i gynnig cymorth a chyngor iddynt ar ôl iddynt adael y sytem ofal, gan gynnwys y cymorth ariannol y bydd angen arnynt.

6.5. **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Armand Watts**

Er mai'r dyddiad cau ar gyfer y Cynllun Preswylio yw 30ain Mehefin 2021, mae'r Cyngor yn parhau i estyn allan i ddinasyddion yr Undeb Ewropeaidd ar draws Sir Fynwy er mwyn sicrhau bod eu hawliau fel dinasyddion yn cael eu cynnal a'u parchu.

Mae'r Cyngor yn nodi bod plant yr Undeb Ewropeaidd, sydd â'u rhieni heb wneud cais, yn methu sylweddoli bod angen i'w plant i wneud cais, neu'n credu ar gam fod y ffaith bod plant yn cael eu geni yn y DU yn golygu eu bod yn dod yn ddinasyddion y DU a'n derbyn statws preswylio'n awtomatig. Felly, bydd y Cyngor yn sicrhau ei fod yn hysbysu ysgolion o hyn ac yn canolbwyntio cyfathrebu ar y teuluoedd a'r cymunedau sydd yn fwyaf tebygol o gael eu heffeithio.

6.6. **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Tudor Thomas**

Mae'r Cyngor yn cytuno bod angen dysgu gwersi o'r ymgyrch ddiweddar gan Gynghorwyr Sir Y Fenni i ail-osod wyneb y ffordd ar Heol Henffordd, Y Fenni.

Mae'r Cyngor yn galw ar yr Aelod Cabinet sydd yn gyfrifol am briffyrdd i adolygu:

- Polisïau a gweithdrefnau Adran Briffyrdd CSF ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw priffyrdd ar draws yr awdurdod er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn addas i'r diben.
- Cyfnod amser cyn sicrhau bod priffyrdd yn cael eu hatgyweirio er mwyn sicrhau diogelwch.
- Cyfathrebu gyda thrigolion pan eu bod yn cwyno am briffyrdd anniogel.

6.7. **Wedi ei gyflwyno gan y Cynghorydd Sir Dimitri Batrouni**

Dylai'r Cyngor greu tasglu ar gyfer Bulwark a Thornwell sydd yn cynnwys aelodau o'r gymuned, busnesau lleol, y Cyngor Tref a chynrychiolwyr o Gymdeithas Tai Sir Fynwy i wyntyllu'r opsiynau ar gyfer adfywio'r ardal benodol hon o Gas-gwent.

7. **Cwestiynau gan Aelodau:**

7.1. **O'r Cynghorydd Sir Paul Jordan i'r Cynghorydd Sir Paul Pavia, Aelod Cabinet dros Addysg**

Mae Strategaeth Argyfwng Hinsawdd a Datgarboneiddio Cyngor Sir Fynwy yn cynnwys cam gweithredu y bydd holl adeiladau newydd y Cyngor yn gweithredu gydag allyriadau carbon sero net, ac mae safle Ysgol Brenin Harri'r VIII ymhlith yr adeiladau mwyaf yn ystâd yr ysgol. Pa egwyddorion o ran dylunio a'r dechnoleg sydd i'w defnyddio er mwyn sicrhau bod yr ysgol newydd yn Y Fenni yn gweithredu gydag allyriadau carbon sero net, a pha ymrwymiadau sydd yn cael eu gwneud er mwyn sicrhau bod y nodweddion carbon isel yma yn cael eu diogelu a'u heithrio o'r ystyriaeth i arbed arian cyn bod y broses o adeiladu yn

| | | |
|---|---|---|
| | dechrau? | |
| **7.2.** | **O'r Cynghorydd Sir Martyn Groucutt i'r Cynghorydd Sir Paul Pavia, Aelod Cabinet dros Addysg**<br><br>Mae'r ddogfen ymgynghori o ran sefydlu ysgol gydol oes ar gyfer plant a phobl ifanc 4 - 19 yn Y Fenni yn dweud mai un fantais o'r trefniant hwn yw y bydd yna 'gyfnodau pontio mwy effeithiol rhwng y cyfnodau allweddol o ddysgu'. Yn hyn o beth, pam nad yw'r ddarpariaeth Feithrinfa, sydd yn cael ei hystyried fel nodwedd mor bwysig o'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Deri View, yn rhan o'r cynigion ar gyfer yr ysgol newydd a bydd yn cael ei disodli gan ddarpariaeth gan y sector preifat, ac nid oes unrhyw arweiniad neu reolaeth gan yr ysgol drostynt? Beth fydd yn digwydd i staff yr ysgol sydd yn darparu addysg yn y Feithrinfa ar hyn o bryd os yw'r opsiwn yma yn cael ei mabwysiadu? | |
| **8.** | **Yn cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg Mai 2021** | 329 - 334 |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
J.Becker
D. Blakebrough
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
M.Feakins
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
M.Groucutt
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
R.John
D. Jones
L.Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
M.Lane
P. Murphy
P.Pavia
M. Powell
J.Pratt
R.Roden
V. Smith
B. Strong
F. Taylor
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
A. Watts
A. Webb
K. Williams
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

### Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.